

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Celf a Dylunio – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Celf a Dylunio arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). Rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig¹, gan roi cyfle i'r dysgwyr
 - ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig
 - ymateb a myfyrio fel artist ac fel cynulleidfa
 - datblygu eu hunaniaeth artistig eu hunain drwy arloesi a bod yn feiddgar
- Cefnogi egwyddorion dilyniant² drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - gysylltu â'r broses greadigol wrth archwilio ac arloesi
 - creu gwaith mwy soffistigedig
 - mireinio sgiliau a thechnegau
 - magu hyder a gwydnwch wrth roi a derbyn adborth
- Cefnogi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer Celf a Dylunio³ drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - arbrofi a datblygu gwaith drwy amrywiaeth o adnoddau, defnyddiau, technegau a phrosesau
 - llunio amrywiaeth o ganlyniadau a dangos ymateb personol a chreadigol.

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio ar gael drwy ddilyn un o'r llwybrau canlynol. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn adran 6 y Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig, ac mae'n rhaid eu cynnwys fel arnodiad yn nheitl y cymhwyster:

- 6.1. celf, crefft a dylunio
- 6.2. celfyddyd gain
- 6.3. cyfathrebu graffig
- 6.4. dylunio tecstilau
- 6.5. dylunio tri dimensiwn
- 6.6. ffotograffiaeth
- 6.7. astudiaethau beirniadol a chyd-destunol

Bwriedir ymdrin â phob un o'r pedwar amcan asesu yn gyfartal ym mhob un o'r unedau.

¹ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

² <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/>

³ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/cynllunio-eich-cwricwlwm/#discipline-specific-considerations>

Uned 1: Portffolio**60% o'r cymhwyster**

- Bydd y gwaith sy'n cael ei gyflawni o fewn yr uned yn cael ei osod yn fewnol, yn cael ei farcio gan y ganolfan ac yn cael ei gymedroli gan CBAC.

Uned 2: Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol**40% o'r cymhwyster**

- CBAC fydd yn gosod yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, i'w farcio gan y canolfannau a'i gymedroli gan CBAC.

Cymhwyster llinol fydd hwn.

Gwybodaeth am Unedau

Uned 1 - Portffolio

Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio a gwerthfawrogi gwaith creadigol pobl eraill, datblygu eu doniau creadigol eu hunain, a chefnogi chwilfrydedd ymchwiliol
- datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu
- dod i ddeall amrywiaeth o arferion a chyd-destunau sy'n adlewyrchu eu diddordebau a'u dyheadau
- ymateb i waith a grëwyd gan bobl eraill a myfyrio arno, gan gymhwyso gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr
- datblygu sgiliau creadigol trwy arbrofi ac ymchwilio i gynllunio, dyfeisio a dylunio delweddau, arteffactau a chynhyrchion gyda phwrpas a bwriad, gan adnabod cyfleoedd i wireddu dyheadau
- datblygu sgiliau ymarferol a thechnegol, gan gyfleu bwriad artistig yn bwrpasol a gyda soffistigeiddrwydd a rheolaeth gynyddol
- myfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Bydd Uned 1 yn cynnwys prif bortffolio ymarferol a chanlyniad(au) sy'n seiliedig ar themâu sy'n cael eu gosod yn fewnol a deunydd pwnc i'w ddatblygu o fannau cychwyn personol a/neu wedi'u rhoi.

- Y dysgwr fydd yn dewis ac yn cyflwyno'r gwaith i'w asesu.
- Rhaid i'r portffolio gynnwys tystiolaeth o sut mae'r dysgwr wedi bodloni pob un o'r amcanion asesu.
- Bydd yr un pwysoli'n perthyn i brosesau datblygu a mireinio syniadau a chofnodi / myfyrio ar y prosesau hynny â'r hyn sy'n berthnasol i'r darnau terfynol o waith fydd yn cael eu cyflwyno.

Nid oes terfyn amser penodol ar gyfer cwblhau'r gwaith i'w gynnwys yn y portffolio: y ganolfan sydd i benderfynu ar y cyfnod amser hwn.

Uned 2 – Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflawni gwaith ymchwil cyd-destunol ac ymarferol mewn ymateb i friff o ddewis a chynnal astudiaethau ategol sy'n llywio'r ffordd mae syniadau'n cael eu datrys yn ystod cyfnod o astudio dwys a manwl

Dwy ran fydd i'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol:

Rhan 1: Cyfnod astudio paratoadol

- Bydd deunyddiau'r Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol gan CBAC yn cynnwys aseiniadau sy'n cwmpasu cysyniad trosfwaol neu 'syniad mawr' ([gweler y nodyn isod](#)), gan gynnig ysgogiadau gweledol a briffiau ysgrifenedig. Mae'r rhain i'w cyflwyno i'r dysgwr ar ddechrau'r cyfnod astudio paratoadol.
- Bwriadwn ryddhau'r deunyddiau i'r canolfannau cyn diwedd tymor yr Hydref (Rhagfyr) ym mlwyddyn olaf y cwrs er mwyn caniatáu amser i gynllunio a pharatoi deunyddiau cefnogi.
- Y dysgwr fydd yn dewis un o'r aseiniadau ac yn ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer ymateb personol a chreadigol.
- Yn ystod y cyfnod astudio paratoadol y caiff ymatebion eu datblygu a'u mireinio. Dylent fod ar ffurf gwaith paratoadol/astudiaethau cefnogi ymarferol, beirniadol a chyd-destunol a chynnwys cyfnod o fyfyrto ar y broses. Y gwaith hwn fydd wedyn yn gweithio fel sail gwireddu syniadau'r dysgwr yn ystod y 10 awr o astudio dwys a manwl.


Rhan 2: cyfnod 10 awr o waith dwys a manwl

- Bydd cwblhau'r broses o wireddu syniadau'r dysgwr o'r gwaith paratoadol yn digwydd yn ystod y 10 awr sydd wedi'i bennu ar gyfer y gwaith dwys a manwl, a ddylid ei gwblhau dan amodau dan oruchwyliaeth.
- Y dysgwr fydd yn dewis ac yn cyflwyno'r gwaith i'w asesu.
- Rhaid i'r cyflwyniad gynnwys tystiolaeth o sut mae'r dysgwr wedi bodloni pob un o'r amcanion asesu.

Bydd y gwaith paratoadol a'r gwaith dwys a manwl yn cael eu hasesu gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r amcanion asesu.

Noder

Gallai cysyniadau / syniadau mawr i gwmpasu'r Tasg wedi'i Gosod yn Allanol gynnwys:



Bydd yr ysgogiadau a gynigir dan gwmpas y ffrâm gysyniadol yn cynnwys dewis o friffiau gweledol ac ysgrifenedig.

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 100% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad, i'w farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Mae rhai heriau posibl o ran hydrinedd a bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesu ar gyfer y canolfannau a'r dysgwyr. Gellir crynhoi'r gwaith ar gyfer y portffolio drwy gydol y cyfnod astudio cyfan, a bydd lefelau isel o reolaeth ar gyfer yr uned hon. Bwriadwn ddarparu'r asesiad Uned 2 ar gyfer y canolfannau a'r dysgwyr ar ddiwedd tymor yr Hydref ym mlwyddyn olaf y cwrs. Caiff cyfnod penodol o amser ei osod ar gyfer cwblhau a chyflwyno'r dasg. Bydd lefelau rheolaeth yr elfen hon o'r asesiad di-arholiad yn gymysg, gyda'r lefel yn is ar gyfer y cyfnod paratoi, a'r rheolaeth ar gyfer y gwaith dwys a manwl yn ganolig.

Credwn y bydd crynhoi'r gwaith ar gyfer y portffolio yn hydrin i'r dysgwyr gan fod y broses honno'n digwydd yn ystod y cwrs astudio. Bydd crynhoi'r gwaith ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn hydrin i'r dysgwyr gan fod y broses honno'n digwydd o fewn cyfnod penodol o amser a fydd wedi'i ddiffinio. Ystyriwn y bydd marcio'r darnau hyn o waith yn hydrin i athrawon am yr un rhesymau. Nid yw ychwaith yn wahanol i'r hyn sy'n ofynnol o ran y gofynion marcio yn y fanyleb gyfredol.

Credwn y bydd yr unedau a gynigir yn ymgysylltu'r dysgwyr oherwydd y raddfa o berchenogaeth sydd ar gael i'r dysgwyr drwyddi draw. Bydd hyblygrwydd ar gael i athrawon i ddewis themâu a mannau cychwyn sy'n briodol i'r garfan neu i ddysgwyr unigol yn Uned 1. Yn Uned 2 bydd gan y dysgwyr yr hyblygrwydd i ddewis ffocws eu haseiniad o gyfres o ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad arfaethedig yn ffordd ddilys o fynd i'r afael â phwrpas yr unedau gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau, eu creadigrwydd a'u dealltwriaeth o'r pwnc mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gallant gynnwys mathau gwahanol o waith, megis lluniadau, paentiadau, cerfluniau, ffotograffau, cyfryngau digidol, ac ati. Gall portffolio o waith i'w asesu ar gyfer Uned 1 esblygu fel sylwebaeth ar y broses o ddatblygu a mireinio syniadau, arbrofi â defnyddiau a thechnegau, ac adlewyrchu diddordebau, cryfderau a bwriadau'r dysgwr, yn ogystal â'u meddwl beirniadol a myfyriol. Ystyriwn y bydd proses iterus fel hon yn lleihau'r risgiau i'r eithaf sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a'r defnydd esblygol o DA cynhyrchiol, gan y bydd athrawon yn goruchwyllo datblygiad a mireinio'r portffolio drwy gydol y broses o'i gwblhau. Mae asesiad wedi'i osod yn allanol yn rhoi cyd-destun i ymchwil ac astudiaeth gefndirol ac yn caniatáu i ddysgwyr greu ymateb personol i ysgogiad wedi'i ddiffinio. Credwn y bydd y tasgau asesu di-arholiad a ddewisir yn llwyddo i asesu'r canlyniadau dysgu arfaethedig ar gyfer y naill uned a'r llall.

Bydd mabwysiadu dull asesu dilys yn sicrhau ei fod yn ddibynadwy, bydd cyfarwyddyd asesu clir a hyfforddiant wedi'u datblygu ar gyfer aseswyr sy'n athrawon a chaiff pob uned ei samplu i'w chymedroli. Ymhellach, bydd defnyddio deunyddiau aseiniad wedi'i osod yn allanol ac amodau dan oruchwyliaeth ar gyfer cyfnod amser penodol yn helpu o ran dibynadwyedd Uned 2.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Celf a Dylunio](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i **TGAU Celf a Dylunio**:

- 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
- 1.4 galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5 darparu gwybodaeth ystyrion, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i **TGAU Celf a Dylunio**:

- 2.1. ganiatáu i ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â chelf a dylunio
- 2.2. darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrion

3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Celf a Dylunio** gefnogi dysgwyr i:

- 3.1. archwilio a gwerthfawrogi gwaith celf, dylunio a chreffft creadigol pobl eraill, datblygu eu doniau creadigol eu hunain, a chefnogi chwilfrydedd ymchwilol
- 3.2. datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu mewn celf, dylunio a chreffft
- 3.3. ennill dealltwriaeth o amrywiaeth o arferion a chyd-destunau mewn celf, dylunio a chreffft, gan adlewyrchu eu diddordebau a'u dyheadau
- 3.4. ymateb i waith celf, dylunio a chreffft a grëwyd gan bobl eraill a myfyrio arno, gan gymhwyso gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd syniadau a thechnegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr
- 3.5. datblygu sgiliau creadigol trwy arbrofi ac ymchwilio i gynllunio, dyfeisio a dylunio delweddau, arteffactau a chynhyrchion gyda phwrpas a bwriad, gan adnabod cyfleoedd i wireddu dyheadau
- 3.6. datblygu sgiliau ymarferol a thechnegol, gan gyfleu bwriad artistig yn bwrpasol a gyda soffistigeiddrwydd a rheolaeth gynyddol
- 3.7. myfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso
- 3.8. archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol

Amcanion Asesu

- Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

AA1	Datblygu syniadau a dangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol o ffynonellau	25%
AA2	Mireinio gwaith trwy archwilio syniadau, gan ddewis ac arbrofi gyda chyfryngau, technegau, offer, technolegau digidol a phrosesau priodol	25%
AA3	Myfyrio ar eu gwaith eu hunain , a chofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen	25%
AA4	Cyflwyno ymateb personol ac ystyrion sy'n gwireddu bwriadau ac yn dangos dealltwriaeth o iaith weledol	25%

Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Celf a Dylunio** fod yn llinol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster **TGAU Celf a Dylunio**.

Rhaid cynnwys y trefniadau asesu canlynol yn y fanyleb **TGAU Celf a Dylunio**:

- 13.1. rhaid asesu cyfanswm o 100% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad y mae'n rhaid iddo gynnwys:
 - 13.1.1 portffolio sy'n werth 60% o'r cymhwyster, wedi'i osod gan y *Ganolfan*, wedi'i farcio gan y *Ganolfan*, a'i *Gymedroli* gan y corff dyfarnu
 - 13.1.2 aseiniad sy'n werth 40% o'r cymhwyster, y mae'n rhaid iddo gael ei osod gan y corff dyfarnu, ei farcio gan y *Ganolfan*, a'i *gymedroli* gan y corff dyfarnu

Os yw gwneud hynny'n briodol i fwriadau'r dysgwyr, yna mae'r rhaid gallu cyflwyno'r asesiadau di-arholiad ar gyfer y cymhwyster **TGAU Celf a Dylunio** yn ddigidol.